




**Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**

**Cyngor Sir Fynwy**

**Mai 2024**

monmouthshire
sir fynwy

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (Adran 6) |
| **Diben** | Gofyniad Statudol: Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| **Perchennog** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Cymeradwywyd gan** | Cabinet |
| **Dyddiad** | 15fed o Mai 2024 |
| **Rhif Fersiwn** | 3 |
| **Statws** | Strategaeth wedi ei chytuno a'i mabwysiadu |
| **Amlder Adolygu** | Bob 3 blynedd ar ôl 2025 |
| **Dyddiad Adolygiad Nesaf** | Rhagfyr 2025 |
| **Ymgynghoriad** | Swyddogion ac Aelodau Etholedig |

# Cynnwys


1 CYFLWYNIAD ..... 3

2 YR ARGYFWNG NATUR A HINSAWDD ..... 4

3 BIOAMRYWIAETH A CHYDNERTHEDD ECOSYSTEMAU SIR FYNWY ..... 6

4 BLAENGYNLLUN DIWYGIEDIG ..... 11

5 CAMAU GWEITHREDU AR GYFER CYFLENWI 2024-2028 ..... 12

6 FFRAMWAITH ADRODD ..... 12

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth lle mae hynny o fewn gweithrediad cywir eu swyddogaethau. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i Gyngor Sir Fynwy gymryd dull rhagweithiol i wella a pheidio gostwng bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau wrth gyflawni ei swyddogaethau.

1.2 Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus baratoi 'Blaengynllun' i amlinellu sut y byddant yn cyflawni'r ddyletswydd ac adrodd ar y cynllun hwnnw bob tair blynedd o'r cylch adrodd cyntaf yn 2019. Mae'r '**Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau'** hwn yn disodli'r cynllun o'r un teitl a gyhoeddwyd yn 2017, yn dilyn dau gylch o adroddiadau statudol (2019 a 2023) a chwe mlynedd o dirwedd sy'n newid yn gyflym ar gyfer adfer natur yn Sir Fynwy a Chymru. Mae'r Blaengynllun hwn yn cynnwys awdurdod unedol y Cyngor Sir yn cynnwys yr ardal ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lle mae swyddogaethau Cyngor Sir Fynwy yn berthnasol.

1.3 Bydd y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystem wedi ei ddiweddaru yn:

- Crynhoi'r gofynion deddfwriaethol perthnasol ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, llywodraethiant a'r fframwaith corfforaethol, a'i berthynas gyda'r Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur a chynlluniau eraill.
- Ystyried cyflwr hysbys cyfredol bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau Sir Fynwy a sut y dylai'r Datganiadau Ardal ac Adran 7 Cynefinoedd a Rhywogaethau lunio cyflenwi.
- Dynodi amcanion diwygiedig y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar gyfer Sir Fynwy.
- Dynodi camau gweithredu a dulliau cyflenwi i gyflawni'r amcanion yn ystod cyfnod 2023-2028.
- Dynodi fframwaith adrodd ar gyfer cylchoedd adrodd yn y dyfodol.

## 2 YR ARGYFWNG NATUR A HINSAWDD

2.1 Cyhoeddodd Cyngor Sir Fynwy Argyfwng Hinsawdd yn 2029. Roedd y Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd dechreuol yn canolbwyntio a ddatgarboneiddio Cyngor Sir Fynwy ond hefyd dynododd bwysigrwydd rheoli gofodau gwyrdd i ostwng defnydd ynni, amsugno carbon a bod yn gydnerth. Cafodd y cynllun ei ddiweddaru yn 2021, cryfhawyd y pwyslais ar adfer natur ac ychwanegwyd camau gweithredu i drin ansawdd dŵr i wella diogeliad ein afonydd ac arfordiroedd.

2.2 Ym mis Mawrth 2022 derbyniodd aelodau etholedig Cyngor Sir Fynwy Gynnig ar gyfer Afonydd a Moroedd, gan ddefnyddio'r model Cynnig ar gyfer y Moroedd a ddatblygwyd gan Grŵp Diddordeb Arbennig Arfordirol y Gymdeithas Llywodraeth Leol, a'i addasu i gydnabod pwysigrwydd cymryd dull gweithredu dalgylch i arfordir i ddiogelu ansawdd dŵr. Cynhyrchodd Cyngor Sir Fynwy adroddiad yn cynnwys argymhellion am sut y dylai'r cyngor weithredu i sicrhau moroedd ac afonydd glân, iach a chynhyrchiol, ynghyd â'r ymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

2.3 Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Argymhellion yr 'Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth' fel rhan o uwchgynhadledd bioamrywiaeth COP 15 dau ran y Cenhedloedd Unedig. Prif nod y gwaith hwn yw diogelu 30% o'r tir a'r moroedd erbyn 2030. Mae'r cam gweithredu i ymwreiddio adferiad natur ym mholisi a strategaeth cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn berthnasol i lywodraeth leol.

2.4 Ym mis Ebrill 20212 cyhoeddodd Cyngor Sir Fynwy ei Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028, sy'n anelu i fynd â Sir Fynwy ymlaen, gan gydweithio ar gyfer sir decach, gwyrddach a mwy llwyddiannus. Mae amcanion y cynllun yn cynnwys gwneud Sir Fynwy yn "lle gwyrdd" i fyw a gweithio, gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae'r Cynllun yn cydnabod ein bod yn bartner yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n gyfrifol am osod amcanion llesiant ar gyfer sir Gwent. Caiff amcanion llesiant yr awdurdod lleol ei hun eu gosod gan y Cyngor ac maent yn ffurfio asgwrn cefn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

2.5 Mae'r newidiadau sylweddol hyn yng Nghymru, Gwent a Sir Fynwy wedi ysgogi'r angen am newid yn y strwythur llywodraethiant yn ymwneud â hinsawdd a natur. Bydd dull gweithredu Sir Fynwy yn seiliedig ar bedwar philer allweddol, fel y'u dangosir yn Ffigur 1.




*Ffigur 3 Cynllunio Strategaeth Hinsawdd a Natur*

2.6 Mae'r piler Adfer Natur yn cynnwys 3 cynllun allweddol a chysylltiedig ar gyfer cyflenwi:

- Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (2024-2028) h.y. y cynllun hwn,
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Sir Fynwy (2024), a
- Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy (2024).

2.7 Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ar gyfer Sir Fynwy yn elfen allweddol mewn cyflenwi adfer natur yn effeithlon drwy ddarparu camau gweithredu ymarferol sy'n cyflawni amcanion cynlluniau stratgol, yn ogystal â hyrwyddo cydweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid eraill i gyflawni nodau cyffredin. Caiff Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Sir Fynwy ei baratoi gan Gyngor Sir Fynwy mewn partneriaeth gyda Phartneriaeth Natur Leol Sir Fynwy. Mae'r bartneriaeth hon, a gaiff ei chynnal a'i chydlynu gan Gyngor Sir Fynwy, yn bodoli i gydlynu, hyrwyddo a chofnodi camau gweithredu cadwraeth i hyrwyddo a chyfoethogi natur yn lleol.

2.8 Caiff y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd wedi ei diweddaru ei pharatoi i adlewyrchu gofynion statudol ac arweiniad Polisi Cynllunio Cymru. Gan nodi dull Sir Fynwy at gyflenwi Seilwaith Gwyrdd, mae'n dynodi gweledigaeth glir, nodau, amcanion strategol ac egwyddorion cysylltiedig i lywio a chyfrannu at ystod o nodau, cynlluniau ac amcanion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'n ffurfio dull cyflenwi ar gyfer adfer natur, yn cefnogi ffyrdd o drin deilliannau iechyd a llesiant, yn dynodi datrysiadau ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd, yn cefnogi teithio llesol, hawliau tramwy cyhoeddus ac yn rhoi fframwaith ar gyfer gweithio partneriaeth drwy ddull gweithredu Seilwaith Gwyrdd.

# 3 BIOAMRYWIAETH A CHYDNERTHEDD ECOSYSTEMAU SIR FYNWY

3.1 Mae Sir Fynwy yn sir fawr ac amrywiol, gydag arfordir aberol ar ei ffin deheuol a thir uchel Bannau Brycheiniog i'r gogledd orllewin. Aiff y tirwedd â ni o Ddyffryn Gwy coediog i'n terfyn gyda chymoedd dwyreiniol Gwent.

3.2 Mae gan Sir Fynwy adnoddau bioamrywiaeth ac ecosystemau sylweddol, llawer ohonynt yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol neu'n genedlaethol. Mae ardal Awdurdod Unedol Sir Fynwy yn cynnwys yr adnoddau canlynol:

| | |
|---|---|
| Safle Morol Ewropeaidd Môr Hafren | Dynodwyd Aber Hafren yn Ardal Cadwraeth Arbennig, yn Ardal Warchodaeth Arbennig, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safle Ramsar (Gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol) |
| Ardal Cadwraeth Arbennig | Mae saith Ardal Cadwraeth Arbennig arall yn Sir Fynwy: coetiroedd Cwm Clydach*, yr Afon Gwy, yr Afon Wysg, ; coetiroedd Pen y Fâl, Safleoedd Ystlumod Brynbuga*, coetiroedd Dyffryn Gwy a safleoedd ystlumod Dyffryn Gwy (a Fforest y Ddena). |
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Mae 68 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Sir Fynwy, 16 ohonynt o fewn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r rhan fwyaf yn safleoedd coetir neu laswelltir gydag eraill wedi eu dynodi am eu gwlypdir neu ddiddordeb daearegol. |
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol | Cwm Clydach*, Coed y Cerrig*, Fiddler's Elbow a Choedwig Lady Park |
| Gwarchodfa Natur Leol | Cors Cleddon |
| Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Mae tua 759 Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur anstatudol yn bennaf yn ymwneud ag ardaloedd glaswelltir a choedlannau hynafol a lled-naturiol o fewn ardal cynllunio Sir Fynwy ac wyth Safle o fewn rhan Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o'r Sir . |
| Cynefin blaenoriaeth a rhywogaethau gwarchodedig | Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth yw'r rhai a gydnabyddir fel bod o bwysigrwydd pennaf ar gyfer cadwraeth natur yng Nghymru a restrir yn Adran 42 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |

*Safleoedd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

3.3 Dynododd Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2019 bum proffil tirwedd yn Sir Fynwy sy'n ddefnyddiol i ddangos y gwahaniaethau ar draws y sir: Bannau Brycheiniog a'r Mynydd Du, Cymoedd De Cymru, Canol Sir Fynwy, Dyffryn Gwy a Choedwig Gwent a Gwastatiroedd Gwent (gweler Ffigur 2). Mae proffiliau'r tirwedd yn bennaf yn rhannu'r un cynefinoedd naturiol ond gyda gwahaniaethau clir sy'n rhoi eu cymeriad neilltuol iddynt.




*Ffigur 2. Ardaloedd Proffiil Tirwedd yn Sir Fynwy*

3.4 Caiff canol Sir Fynwy ei adnabod am ei iseldir bryniog yn cynnwys tir glas ac âr gyda phocedi ynysig o goetiroedd. Mae'n ardal ffermio werthfawr gyda chaeau tir glas ac âr a gafodd eu gwella yn amaethyddol. Mae gwrychoedd yn rhoi cysylltiad pwysig rhwng coetiroedd bach, ynysig a hynafol, yn aml ar ben bryniau ac ochrau dyffrynnoedd serth lle mae ffermio yn anodd. Mae parseli o laswelltir heb ei wella yn parhau ac, mewn cyd-destun o ddirywiad hanesyddol enfawr, ystyrir eu bod o bwysigrwydd ecolegol sylweddol.

3.5 Mae Dyffryn Gwy a Choedwig Gwent yn bennaf yn dirwedd coediog ac afonol. Mae rhannau helaeth o goetiroedd rhyngwladol bwysig ar ochrau serth Dyffryn Gwy, a ddynodwyd fel Ardal Cadwraeth Arbennig Coetiroedd Dyffryn Gwy. Mae Dyffryn Gwy yn gartref i rywogaethau rhyngwladol bwysig o ystlumod yn cynnwys yr Ystlum Pedol Mwyaf a'r Ystlum Pedol Lleiaf gyda llawer o'u clwydfannau wedi eu cynnwys yn Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena. Gwyddys fod o leiaf 15 rhywogaeth o ystlumod yn defnyddio rhannau o Ddyffryn Gwy yn cynnwys yr Ystlum Du a'r Ystlum Bechstein prin. Mae'r ardal hefyd yn bwysig ar gyfer rhywogaethau fel y pathew, y troellwr mawr ac infertebratau coetir.

3.6 Yn y de, mae Gwastadeddau Gwent unigryw yn ffurfio cynefin arfordirol helaeth ar hyd Aber Hafren yn cynnwys tir amaethyddol wedi ei adfer a gaiff ei ddraenio gan rwydwaith o ffosydd. Mae'r ffosydd yn cefnogi cymuned neilltuol o amrywiol o bryfetach ac infertebratau eraill (er enghraifft chwilod dŵr) a chawsant eu dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn dilyn rhaglen ailgyflwyno lwyddiannus yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Magwyr yn 2012, mae llygod y dŵr wedi lledaenu ar draws Gwastadeddau Gwent gyda'r pellaf wedi ei gofnodi 16km o'r safle rhyddhau gwreiddiol.


3.7 Y tu allan i ardal cynllun Gweithredu Cynllunio ac Adfer Natur Sir Fynwy ond o fewn ardal weinyddol Awdurdod Unedol Cyngor Sir Fynwy mae rhannau o dirweddau Bannau Brycheiniog a'r Mynydd Du a Chymoedd De Cymru (Cymoedd Dwyreiniol). Mae proffil tirwedd Bannau Brycheiniog yn cynnwys Dyffryn Ewyas a'r ucheldir cyfagos yn y Mynydd Du, a gyda chopaon neilltuol yr Ysgyryd a Phen y Fâl yn fframio Dyffryn Wysg yn y Fenni. Gyda rhostir ucheldir agored gyda golygfeydd helaeth, mae hwn yn dirwedd a nodir am ei dawelwch, awyr dywyll a diffyg datblygiad. Mae coetiroedd coniffer a choed dail llydan yma. Yn aml caiff tir glas ei amgáu gan wrychoedd trwchus, yn aml gyda lonydd cul, aneddiadau bach gwasgaredig yn y cymoedd gyda archaeoleg cyn hanesyddol a safleodd canol-oesol yn cynnwys Priordy Llanddewi Hodni a thir parc hanesyddol.

3.8 Mae'r Cymoedd Dwyreinol yn cynnwys mynydd y Blorens a llethrau dwyreiniol Mynydd Garn-wen, caiff rhai ardaloedd eu cynnwys yn Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Diwydiannol Blaenafon. Mae tir comin yn elfen fawr a phwysig o'r Cymoedd Dwyreiniol ac mae ardaloedd helaeth o goetir ffawydd. Mae systemau ogofau ar draws yr ardal yn bwysig i glwydfeydd ystlumod rhyngwladol bwysig a ddiogelir gan Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Dyffryn Wysg. Mae Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu ar ffin y Parc Cenedlaethol yn enghraifft

berffaith o sut y gall y tirwedd hwn, a fu unwaith yn ddiwydiannol, ddarparu ar gyfer bywyd gwyllt heddiw.

3.9 Y ddwy brif afon yn Sir Fynwy yw'r Afon Wysg a'r Afon Gwy. Dynodwyd y ddwy fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac ynghyd â'u his-afonydd maent yn goridorau bywyd gwyllt pwysig ac yn llwybrau mudo ar gyfer rhywogaethau allweddol tebyg i ddyfrgwn, gwangod a chimychiaid afon crafanc wen. Cynefin dŵr croyw pwysig arall yn Sir Fynwy yw Cronfa Ddŵr Llandegfedd, a ddynodwyd fel Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar gyfer cefnogi adar gwyllt sy'n treulio'r gaeaf yma.

3.10 Er fod ganddi gyfoeth o rywogaethau gwarchodedig a blaenoriaeth, mae ecosystemau Sir Fynwy yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd. Dynododd adroddiad Cyflwr Natur yrwyr allweddol newid yng Nghymru (gweler Ffigur 2). Mae'r gyrwyr hyn yn berthnasol i Sir Fynwy. Mae safleoedd glaswelltir mewn risg o reolaeth wael, llygredd aer a phwysau datblygu. Dyffryn Gwy yw ein ardal mwyaf cyfoethog yn ecolegol, ond mae ansawdd y coetir dan fygythiad o ddiffyg rheoli a lledaenu clefyd coed ynn a rhywogaethau ymledol. Mae cyfran sylweddol o'r ffosydd ar Wastadeddau Gwent wedi dirywio ac mewn risg o ddatblygiad anaddas. Mae cynefinoedd dŵr croyws dan fygythiad o alldynnu dŵr, llygredd a phriddo. Fel gweddill y byd, mae Sir Fynwy yn wynebu argyfwng natur.




Ffigur 3 Cyflwr Natur: Gyrwyr Newid

3.11 Mae Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn dweud y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi, adolygu a diwygio rhestr o organeddau byw a mathau o gynefinoedd yng Nghymru, ac ystyriant fod hynny o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng nghyswllt Cymru. Disgwylir rhestr wedi ei diweddaru yn 2024 fodd bynnag, yn absenoldeb hynny, cyfeirir at y rhestr a baratowyd mewn ymateb i adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

3.12 Caiff archwiliad o'r rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7 yn Sir Fynwy a gynhaliwyd yn 2022 ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyhoeddir ar gyfer ymgynghori wrth ochr y ddogfen hon. Dyma ein cynefinoedd a rhywogaethau 'blaenoriaeth' ar gyfer adfer natur yn Sir Fynwy. Gall cynefinoedd a neu rhywogaethau ychwanegol gael eu dynodi wrth i flaenoriaethau lleol barhau i gael eu datblygu drwy Gynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol.

3.13 Cyhoeddwyd adroddiad Cyflwr Natur Gwent Fwyaf yn 2021 a defnyddiodd y data presennol i ddadansoddi statws a thueddiadau rhywogaethau o fewn ardal Gwent Fwyaf. Mae'r adroddiad yn dadansoddi rhywogaethau unigol a grwpiau o rywogaethau yn cynrychioli dros 500 o rywogaethau unigol, a gyflwynwyd fel 100 stori wahanol o'r rhywogaethau hyn a grwpiau rhywogaeth. O'r holl rywogaethau a grwpiau rhywogaeth a ddadansoddwyd, mae 34% o rywogaethau yn dangos dirywiad yn eu niferoedd neu rhagwelir y byddant yn parhau i ostwng. Dim ond 12% ddangosodd boblogaethau sefydlog. Dangosodd 21% gynnydd a groesewir yn eu niferoedd, ond nid oedd gan y 21% arall ddigon o ddata i ddisgrifio'r tueddiadau poblogaeth.

# 4 BLAENGYNLLUN DIWYGIEDIG

4.1 Yn ystod adroddiad 2020-23, cynhaliwyd adolygiad o bob un o amcanion y Blaengynllun. Daeth i'r casgliad yn gyffredinol fod llawer yn cael ei gyflawni dan yr amcanion a luniwyd yn 2017, fodd bynnag roedd amcan addysg amgylcheddol yn rhy gul yn ei gwmpas a dylid ei ehangu i gynnwys datrysiadau ehangach seiliedig ar natur a'u rôl mewn iechyd a llesiant yn ychwanegol at godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Ystyriwyd hefyd fod bwlch o amgylch data a thystiolaeth oedd yn brin o Gynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. Mae'r tabl canlynol yn rhestru Amcanion y Blaengynllun Diwygiedig ac mae meysydd gwasanaeth Cyngor Sir Fynwy y maent yn cyfeirio'n neilltuol atynt yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Amcan 1: Ymwreiddio bioamrywiaeth drwy wneud penderfyniadau ar bob lefel** | •Polisi Corfforaethol, Polisi Llesiant a Chynllunio, Cynlluniau Strategol e.e. Cynllun Datblygu Lleol Newydd, caniatadau, penderfynaidau gweithredol |
| **Amcan 2: Darparu cyfleoedd seiliedig ar natur i godi ymwybyddiaet, cefnogi iechyd a llesiant ac annog gweithredu dros natur** | •Gweithgareddau addysg amgylcheddol, iechyd a llesiant mewn natur, gan roi dehongliad ac arweiniad, cefnogi grwpiau lleol a dinasyddion i weithredu dros natur. |
| **Amcan 3: Cynnal rheolaeth tir ar gyfer bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau** | •Rheoli stad y Cyngor ar gyfer adferiad natur. |
| **Amcan 4: Dylanwadu ar reolaeth tir i wella cydnerthedd ecosystemau** | •Cefnogi perchnogion tir eraill a rhanddeiliaid i wneud newidiadau cadarnhaol e.e. ffermio adfywiol a rheolaeth llifogydd naturiol |
| **Amcan 5: Mynd i'r afael â phwysau sylweddol ar rywogaethau a chynefinoedd** | •Trin gyrwyr drwy brosiect a gweithdrefn e.e. cyflenwi budd net drwy reoli datblygu, rhywogaethau anfrodorol ymledol, effeithiau goleuadau. |
| **Amcan 6: Cefnogi prosiectau maint tirwedd a phartneriaethau i uchafu cyflenwad** | •Cydweithio, cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau dalgylch, partneriaethau tirlun, partneriaethau prosiect. |
| **Amcan 7: Defnyddio gwell tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro i lywio gweithredu** | •Rhwydweithiau natur, cynnal ac annog eraill i gynnal monitro a chofnodi biolegol. |
| **Amcan 8: Monitro effeithlonrwydd y cynllun ac adolygiad** | •Cynnal adroddiadau statudol ac asesu'r angen i ddiweddaru'r cynllun. |

## 5 CAMAU GWEITHREDU AR GYFER CYFLENWI 2024-2028

5.1 Yn wahanol i adroddiad cyntaf Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, mae'r fersiwn ddiwygiedig yma yn nodi camau gweithredu penodol ynghyd â meysydd gwasanaeth allweddol sy'n gyfrifol am gyflenwi. Mae tabl o gamau gweithredu ar gael yn Atodiad 1 y ddogfen hon.

5.2 Mae'r tabl hefyd yn dynodi statws cyllido cyfredol y gweithredu, ffynhonnell/ffynonellau y cyllid hwnnw.

5.3 Mae'r camau gweithredu yn ffurfio elfen 'byw' y cynllun Adran 6. Bydd y rhain yn esblygu wrth i ddeddfwriaeth ychwanegol, polisi, cyllid ddod i'w lle.

## 6 FFRAMWAITH ADRODD

6.1 Yn unol ag adroddiadau Perfformiad Cyngor Sir Fynwy, rhoddir adroddiad ar y camau gweithredu bob 6 mis.

6.2 Disgwylir adroddiadau statudol i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2025 a bob 3 blynedd wedyn.

6.3 Cynigir adolygu amcanon y Blaengynllun a'r camau gweithredu cysylltiedig adeg cylch adrodd statudol 2028.